**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Ebrill 2001**

**Amser: 9.30 am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Adeilad Y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Buddiannau'r Aelodau – y Seiri Rhyddion**

## Bwriad

1. Cyfeiriodd y Llywydd sylwadau a dderbyniodd gan Mr James R Bevan, P.J.G.D. Prif Ysgrifennydd Taleithiol, Seiri Rhyddion Talaith De Cymru a Rhanbarth y Dwyrain, at y Pwyllgor. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir.

## Cefndir

2. Mae Mr Bevan wedi awgrymu y gall gofynion y Cynulliad i'w Aelodau ddatgan eu bod yn aelodau o'r Seiri Rhyddion dorri Erthyglau 8 ac 11 o'r Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac felly fod yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a ddaeth i rym ym mis Hydref 2000. Gofynnwyd i'r Llywydd pa gamau y mae'r Cynulliad yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r Llywydd wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor.

3. Mae'r Ysgrifenyddiaeth, ar ran y Pwyllgor, wedi gofyn i Ymgynghorydd cyfreithiol y Cynulliad, Mr David Lambert ystyried y materion a godwyd gan Mr Bevan. Mae papur Mr Lambert STD 02-01-(7) yn edrych ar hanes gofynion presennol y Cynulliad, yr ystyriaeth a roddwyd gan y Pwyllgor Materion Cartref a'r Swyddfa Gartref i aelodaeth o'r Seiri Rhyddion a gofynion y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998.

## Materion i'w hystyried

4. Fel rhan o'i ystyriaethau dymuna'r Pwyllgor ystyried:-

- perthnasedd y darpariaethau presennol ynglyn â Chofrestru a Datgan aelodaeth o'r Seiri Rhyddion,
- yr angen a'r opsiynau ar gyfer newid y ddarpariaeth bresennol, a
- posibilrwydd a chanlyniadau her gyfreithiol

***Yr Ysgrifenyddiaeth***